



OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 95

Gorchymyn Sir Abertawe (Cymunedau) 2026

Gwnaed

19 Mawrth 2026

Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2) a (3)

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 95

The County of Swansea (Communities) Order 2026

Made

19 March 2026

Coming into force in accordance with article 1(2) and (3)



OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 95

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Sir Abertawe (Cymunedau) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu argymhellion Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn"), a roddodd adroddiad ym mis Tachwedd 2024 ar ei adolygiad o'r trefniadau etholiadol cymunedol yn Sir Abertawe. Roedd adroddiad y Comisiwn yn argymhell newidiadau i ffiniau cymunedau yn Sir Abertawe a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol. Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu argymhellion y Comisiwn heb addasiadau. Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn gwneud darpariaeth atodol, fel y'i hystyrir yn angenrheidiol neu'n hwylus gan Weinidogion Cymru, mewn perthynas â rhai enwau cymunedau.

Effaith y Gorchymyn hwn yw gwneud newidiadau i nifer o gymunedau a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol. Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu nifer o gymunedau ac yn diddymu eu cynghorau cymuned, yn creu cymunedau newydd a chynghorau cymuned newydd, ac yn gwneud darpariaeth weinyddol ar gyfer gweithredu'r cynghorau cymuned newydd hynny a gosod praeseptau sy'n ymwneud â hwy.

Mae Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976, y cyfeirir atynt yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn, yn cynnwys darpariaethau deilliadol, darpariaethau canlyniadol, darpariaethau trosiannol a darpariaethau atodol ynghylch effaith gorchymynion megis y gorchymyn hwn a gweithredu'r gorchymynion hynny.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Mae printiau o'r mapiau a labelwyd "1" i "50" y mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â hwy wedi eu hadneuo yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (yr Is-adran Etholiadau), a chyda Chyngor Sir Abertawe. Mae'r printiau sydd

wedi eu hadneuo gyda Chyngor Sir Abertawe yn agored i gael eu harchwilio gan unrhyw un y bydd darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn effeithio arnynt.

2026 Rhif 95

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Sir Abertawe (Cymunedau) 2026

Gwnaed

19 Mawrth 2026

Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2) a (3)

Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru(1) ("y Comisiwn"), o dan adran 36(5)(a) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013(2) ("Deddf 2013"), wedi cyflwyno i Weinidogion Cymru adroddiad dyddiedig Tachwedd 2024 yn cynnwys ei argymhellion ar gyfer newid a manylion adolygiad o'r trefniadau cymunedol o fewn Sir Abertawe.

Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu rhoi effaith i argymhellion y Comisiwn heb addasiadau. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn gwneud darpariaeth atodol fel y'i hystyrir ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus.

O dan adran 37(3A) a (3B) o Ddeddf 2013(3), mae mwy na 6 wythnos wedi mynd heibio ers i'r argymhellion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru ac mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wnaed yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi datganiad yn nodi eu penderfyniad mewn cysylltiad â phob argymhelliad o dan adran 37(6) o Ddeddf 2013(4).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 37(1) a 40(1) a (2)(a) o Ddeddf 2013.

-
- (1) Sefydlwyd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gan adran 53 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70) ac Atodlen 8 iddi. Diddymwyd adran 53 ac Atodlen 8 gan adran 73(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4) ("Deddf 2013") ac Atodlen 2 iddi. Gwnaeth Deddf 2013 ailenwi'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (gweler adran 2(2)). Gwnaeth Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (dsc 4) ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (gweler adran 12).
- (2) 2013 dccc 4. Gwnaeth adran 11 o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 ailenwi enw byr Deddf 2013 yn Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.
- (3) Rhoddwyd adran 37(3A) a (3B) yn lle adran 37(3) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 gan adran 43(2) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (dsc 5).
- (4) Mewnosodwyd adran 37(6) gan adran 49(2)(b) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

O dan adran 37(2A) o Ddeddf 2013⁽⁵⁾, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn fwy na 6 mis cyn diwrnod etholiad cyngor cyffredin o dan adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972⁽⁶⁾.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Sir Abertawe (Cymunedau) 2026.

(2) At unrhyw ddiben a nodir yn rheoliad 4(1) o Reoliadau 1976⁽⁷⁾, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Mai 2026.

(3) At bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn i rym am 23:59 o'r gloch ar y diwrnod cyn y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2027.

Dehongli

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 1972" ("*the 1972 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972⁽⁸⁾;

ystyr "newydd" ("*new*") yw cymuned, ward gymunedol neu gyngor cymuned a sefydlir gan y Gorchymyn hwn;

ystyr "Rheoliadau 1976" ("*the 1976 Regulations*") yw Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976;

ystyr "ward etholiadol" ("*electoral ward*") yw unrhyw ardal yr etholir cynghorwyr drosti i Gyngor Sir Abertawe;

mae unrhyw gyfeiriad at fap yn golygu un o'r 50 o fapiau a farciwyd "Map ar gyfer Gorchymyn Sir Abertawe (Cymunedau) 2026", a adnewwyd yn unol â rheoliad 5 o Reoliadau 1976, a labelwyd "1" i "50", ac mae cyfeiriad at fap â rhif yn gyfeiriad at y map sy'n dwyn y rhif hwnnw;

pan ddangosir bod ffin ar fap yn rhedeg ar hyd ffordd, rheilffordd, troetffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol debyg, mae i'w thrin fel un sy'n rhedeg ar hyd llinell ganol y nodwedd.

(2) Mae'r darpariaethau yn y Gorchymyn hwn yn cymryd blaenoriaeth dros unrhyw ddarpariaeth wrthdrawiadol mewn unrhyw offeryn statudol blaenorol a wnaed o dan adran 58(2) o Ddeddf 1972 neu orchymyn a wnaed o dan adrannau 37(1), 38(1) neu 39(1) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.

Mawr, Clydach, Gellifedw, a Treforys — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

3. Mae'r rhan o ward Craig-cefn-parc o gymuned Mawr a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 1—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Clydach;

⁽⁵⁾ Mewnodsodwyd adran 37(2A) gan adran 47(3) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

⁽⁶⁾ Amnewidiwyd adran 26 gan adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19). Diwygiwyd adran 26 gan O.S. 2019/1269 (Cy. 220) i ddarparu mai'r flwyddyn y mae rhaid i etholiadau cyffredin cynghorwyr awdurdodau lleol gael eu cynnal yw 2022 yn hytrach na 2021. Diwygiwyd adran 26(1) ymhellach gan adran 14(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1) i ddarparu bod rhaid i etholiadau gael eu cynnal bob pumed flwyddyn ar ôl 2022.

⁽⁷⁾ O.S. 1976/246. Mae adran 74(3) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 ("*Deddf 2013*") yn darparu bod y Rheoliadau yn parhau i gael effaith mewn perthynas â gorchymynion a wnaed o dan Ran 3 o Ddeddf 2013, fel pe bai'r gorchymynion hynny wedi eu gwneud o dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70).

⁽⁸⁾ 1972 p. 70.

- (b) yn ffurfio ward gymunedol newydd o'r enw Craig-cefn-parc yn Gymraeg ac yn Saesneg;
 - (c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Clydach.
4. Mae'r rhan o ward Glais o gymuned Clydach a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 2—
- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Gellifedw;
 - (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llansamlet.
5. Mae'r rhan o gymuned Gellifedw a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 3—
- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Treforys;
 - (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Treforys.
6. Mae'r rhan o gymuned Treforys a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 4—
- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Clydach;
 - (b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Graigfelen;
 - (c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Clydach.
7. Enw ward gymunedol Faerdre yng nghymuned Clydach fydd Faerdre yn Gymraeg ac erys yr enw Vardre yn Saesneg.
8. Enw cymuned Gellifedw fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn fydd Gellifedw yn Gymraeg a Birchgrove yn Saesneg.

Newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

9. Yng nghymuned Clydach, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—
- (a) ward Craig-cefn-parc yw 2;
 - (b) ward Clydach yw 4;
 - (c) ward Graigfelen yw 3;
 - (d) ward Faerdre yw 4.

Mawr, a Pontarddulais — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

10. Enw cymuned Pontarddulais fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn fydd Pontarddulais yn Gymraeg ac yn Saesneg.
11. Mae'r rhan o ward Garn-swllt o gymuned Mawr a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 5—
- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Pontarddulais;
 - (b) wedi ei chyfuno â ward gymunedol Pentre-bach i ffurfio ward gymunedol newydd o'r enw Pentre-bach a Garn-swllt yn Gymraeg a Pentre-bach and Garn-swllt yn Saesneg ac a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 6;
 - (c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Pontarddulais.
12. Mae'r rhan o ward Goppa o gymuned Pontarddulais a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 7—
- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Pengelli a Waun-gron;
 - (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Pengelli a Waun-gron.

13. Mae'r rhannau o wardiau Goppa a Tal-y-bont yng nghymuned Pontarddulais a ddangosir wedi eu graddliwio a'u labelu 1 ar Fap 8 a'r rhan o gymuned Llangyfelach a ddangosir wedi ei graddliwio a'i labelu 2 ar Fap 8—

- (a) wedi eu cyfuno i ffurfio ward gymunedol newydd yng nghymuned Pontarddulais o'r enw Cwm Dulais yn Gymraeg ac yn Saesneg ac a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 9;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Pontarddulais.

Pontarddulais — newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol cymunedol

14. Yng nghymuned Pontarddulais, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

- (a) ward Pentre-bach a Garn-swllt yw 2;
- (b) ward Dwyrain Dulais yw 2;
- (c) ward Gorllewin Dulais yw 3;
- (d) ward Cwm Dulais yw 5.

Mawr, Llangyfelach, Mynydd-bach, a Pont-lliw a Thir-coed — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

15. Mae'r rhan o gymuned Llangyfelach a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 10—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Pont-lliw a Thir-coed;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Pont-lliw a Thir-coed.

16. Mae'r rhan o gymuned Llangyfelach a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 11—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Penderi;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Penderi.

17. Mae'r rhan o gymuned Mynydd-bach a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 12—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Llangyfelach;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llangyfelach.

18. Mae'r rhan o ward Felindre o gymuned Mawr a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 13—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Llangyfelach;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llangyfelach.

Pont-lliw a Thir-coed — newidiadau i drefniadau etholiadol

19. Nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros gymuned Pont-lliw a Thir-coed yw 9.

Mawr — diddymu cymuned

20. Mae cymuned Mawr fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.

Llanrhidian Isaf, a Llanrhidian Uchaf — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol

21. Mae'r rhan o gymuned Llanrhidian Isaf a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 14—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Llanrhidian Uchaf;

- (b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Llanmorlais;
- (c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gŵyr.

Llangynydd, Llanmadog a Cheriton, a Llanrhidian Isaf — diddymu cymunedau a chynghorau cymuned

- 22. Mae cymuned Llangynydd, Llanmadog a Cheriton wedi ei diddymu.
- 23. Mae cyngor cymuned Llangynydd, Llanmadog a Cheriton wedi ei ddiddymu.
- 24. Mae cymuned Llanrhidian Isaf fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.
- 25. Mae cyngor cymuned Llanrhidian Isaf wedi ei ddiddymu.

Creu cymuned newydd Gogledd Gŵyr

26. Mae cymuned newydd wedi ei chreu o'r enw Gogledd Gŵyr yn Gymraeg a Gower North yn Saesneg ac sydd—

- (a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 15;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gŵyr.

Creu ward gymunedol newydd Cheriton

27. Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Gogledd Gŵyr o'r enw Cheriton yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

- (a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 16;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gŵyr.

Creu ward gymunedol newydd Llangynydd

28. Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Gogledd Gŵyr o'r enw Llangynydd yn Gymraeg a Llangenith yn Saesneg ac sydd—

- (a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 16;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gŵyr.

Creu ward gymunedol newydd Llanmadog

29. Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Gogledd Gŵyr o'r enw Llanmadog yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

- (a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 3 ar Fap 16;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gŵyr.

Creu ward gymunedol newydd Llanrhidian Isaf

30. Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Gogledd Gŵyr o'r enw Llanrhidian Isaf yn Gymraeg a Llanrhidian Lower yn Saesneg ac sydd—

- (a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 4 ar Fap 16;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gŵyr.

Cymuned Gogledd Gŵyr — sefydlu cyngor cymuned newydd a threfniadau etholiadol cymunedol

31. Mae cyngor ar gyfer cymuned Gogledd Gŵyr wedi ei sefydlu.
32. Yng nghymuned Gogledd Gŵyr, nifer y cyngorwyr sydd i'w hethol dros—
- (a) ward Cheriton yw 1;
 - (b) ward Llangynydd yw 4;
 - (c) ward Llanmadog yw 1;
 - (d) ward Llanrhidian Isaf yw 3.

Port Eynon, Pen-rhys, Rhosili, a Reynoldston — diddymu cymunedau a chynghorau cymuned

33. Mae cymuned Port Eynon wedi ei diddymu.
34. Mae cyngor cymuned Port Eynon wedi ei ddiddymu.
35. Mae cymuned Pen-rhys wedi ei diddymu.
36. Mae cyngor cymuned Pen-rhys wedi ei ddiddymu.
37. Mae cymuned Rhosili wedi ei diddymu.
38. Mae cyngor cymuned Rhosili wedi ei ddiddymu.
39. Mae cymuned Reynoldston wedi ei diddymu.
40. Mae cyngor cymuned Reynoldston wedi ei ddiddymu.

Creu cymuned newydd De Gŵyr

41. Mae cymuned newydd wedi ei chreu o'r enw De Gŵyr yn Gymraeg a Gower South yn Saesneg ac sydd—
- (a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 17;
 - (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gŵyr.

Creu ward gymunedol newydd Horton

42. Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned De Gŵyr o'r enw Horton yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—
- (a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 18;
 - (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gŵyr.

Creu ward gymunedol newydd Pen-rhys

43. Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned De Gŵyr o'r enw Pen-rhys yn Gymraeg a Penrice yn Saesneg ac sydd—
- (a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 18;
 - (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gŵyr.

Creu ward gymunedol newydd Port Eynon

44. Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned De Gŵyr o'r enw Port Eynon yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

- (a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 3 ar Fap 18;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gŵyr.

Creu ward gymunedol newydd Llan-y-tair-mair

45. Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned De Gŵyr o'r enw Llan-y-tair-mair yn Gymraeg a Knelston yn Saesneg ac sydd—

- (a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 4 ar Fap 18;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gŵyr.

Creu ward gymunedol newydd Reynoldston

46. Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned De Gŵyr o'r enw Reynoldston yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

- (a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 5 ar Fap 18;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gŵyr.

Creu ward gymunedol newydd Rhosili

47. Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned De Gŵyr o'r enw Rhosili yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

- (a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 6 ar Fap 18;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gŵyr.

Cymuned De Gŵyr — sefydlu cyngor cymuned newydd a threfniadau etholiadol cymunedol

48. Mae cyngor ar gyfer cymuned De Gŵyr wedi ei sefydlu.

49. Yng nghymuned De Gŵyr, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

- (a) ward Horton yw 1;
- (b) ward Pen-rhys yw 2;
- (c) ward Port Eynon yw 2;
- (d) ward Llan-y-tair-mair yw 2;
- (e) ward Reynoldston yw 2;
- (f) ward Rhosili yw 2.

Pennard, a Llandeilo Ferwallt — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

50. Mae'r rhan o ward Kittle o gymuned Pennard a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 19—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Llandeilo Ferwallt;
- (b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Llandeilo Ferwallt;
- (c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llandeilo Ferwallt.

Cymuned Llandeilo Ferwallt — newidiadau i drefniadau etholiadol cymunedol

51. Yng nghymuned Llandeilo Ferwallt, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—
- (a) ward Llandeilo Ferwallt yw 5;
 - (b) ward Murton yw 4.

Llanilltud Gŵyr, a Pennard — diddymu cymunedau a chynghorau cymuned

52. Mae cymuned Llanilltud Gŵyr wedi ei diddymu.
53. Mae cyngor cymuned Llanilltud Gŵyr wedi ei ddiddymu.
54. Mae cymuned Pennard fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn wedi ei diddymu.
55. Mae cyngor cymuned Pennard wedi ei ddiddymu.

Creu cymuned newydd Pennard

56. Mae cymuned newydd wedi ei chreu o'r enw Pennard yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—
- (a) wedi ei dangos wedi ei graddliwio ar Fap 20;
 - (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Pennard.

Creu ward gymunedol newydd Kittle

57. Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Pennard o'r enw Kittle yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—
- (a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 21;
 - (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Pennard.

Creu ward gymunedol newydd Southgate

58. Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Pennard o'r enw Southgate yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—
- (a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 21;
 - (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Pennard.

Creu ward gymunedol newydd Llanilltud Gŵyr

59. Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned Pennard o'r enw Llanilltud Gŵyr yn Gymraeg ac llystion yn Saesneg ac sydd—
- (a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 3 ar Fap 21;
 - (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Pennard.

Cymuned Pennard — sefydlu cyngor cymuned newydd a threfniadau etholiadol cymunedol newydd

60. Mae cyngor ar gyfer cymuned Pennard wedi ei sefydlu.
61. Yng nghymuned Pennard, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—
- (a) ward Kittle yw 2;
 - (b) ward Southgate yw 5;

- (c) ward Llanilltud Gŵyr yw 2.

Y Crwys, a Pennard — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

62. Mae'r rhan o gymuned Y Crwys a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 22—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned newydd Pennard;
- (b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol newydd Llanilltud Gŵyr;
- (c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Pennard.

Llwchwr, Gorseinon, Pengelli a Waun-gron, Tregŵyr, a'r Cocyd — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

63. Mae'r rhan o ward Casllwchwr Uchaf o gymuned Llwwchwr a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 23—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Gorseinon;
- (b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Gorllewin Gorseinon;
- (c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gorseinon.

64. Mae'r rhan o ward Pentre'r-ardd o gymuned Llwwchwr a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 24—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Gorseinon;
- (b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Dwyrain Gorseinon;
- (c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gorseinon.

65. Mae'r rhan o ward Pontybrenin o gymuned Llwwchwr a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 25—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Gorseinon;
- (b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Dwyrain Gorseinon;
- (c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gorseinon.

66. Mae'r rhan o ward Pentre'r-ardd o gymuned Llwwchwr a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 26—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Y Cocyd;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Y Cocyd.

67. Mae'r rhan o ward Pontybrenin o gymuned Llwwchwr a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 27—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Tregŵyr;
- (b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Gorllewin Tregŵyr;
- (c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Tregŵyr.

68. Mae'r rhan o ward Casllwchwr Uchaf o gymuned Llwwchwr a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 28—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Llwwchwr;
- (b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Pontybrenin;
- (c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llwwchwr.

69. Enw cymuned Pengelli a Waun-gron fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn fydd Pengelli a Waun-gron yn Gymraeg a Grovesend and Waungron yn Saesneg.

Cymuned Gorseinon — newidiadau i drefniadau etholiadol

70. Yng nghymuned Gorseinon, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

- (a) ward Canol Gorseinon yw 2;
- (b) ward Dwyrain Gorseinon yw 4;
- (c) ward Gorllewin Gorseinon yw 3;
- (d) ward Penyrheol yw 4.

Cymuned Pengelli a Waun-gron — newidiadau i drefniadau etholiadol

71. Nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros gymuned Pengelli a Waun-gron yw 7.

Cymuned Llchwyr — newidiadau i drefniadau etholiadol

72. Yng nghymuned Llchwyr, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

- (a) ward Pentre'r-ardd yw 2;
- (b) ward Pontybrenin yw 5;
- (c) ward Casllwchwr Isaf yw 3;
- (d) ward Casllwchwr Uchaf yw 4.

Dyfnant, Cilâ, a Cilâ Uchaf — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

73. Mae'r rhannau o gymuned Y Crwys a ddangosir wedi eu graddliwio ar Fap 29—

- (a) wedi eu trosglwyddo i gymuned Dyfnant;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Dyfnant a Chilâ.

74. Mae'r rhan o gymuned Cilâ Uchaf a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 30—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Cilâ;
- (b) yn ffurfio rhan o ward De Cilâ o gymuned Cilâ;
- (c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Fairwood.

75. Mae'r rhan o ward Gogledd Cilâ o gymuned Cilâ a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 31—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Dyfnant;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Dyfnant a Chilâ.

76. Mae'r rhan o ward De Cilâ o gymuned Cilâ a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 32—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Dyfnant;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Dyfnant a Chilâ.

Cilâ — newid i drefniadau etholiadol

77. Yng nghymuned Cilâ, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

- (a) ward Gogledd Cilâ yw 5;

- (b) ward De Cilâ yw 5.

Cilâ Uchaf — newid i drefniadau etholiadol

78. Nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros gymuned Cilâ Uchaf yw 8.

Bôn-y-maen, Llansamlet, a St Thomas — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

79. Mae'r rhan o gymuned Bôn-y-maen a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 33—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned St Thomas;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol St Thomas.

80. Mae'r rhan o gymuned Llansamlet a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 34—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Bôn-y-maen;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Bôn-y-maen.

Y Cocyd, Sgeti, a Waunarlwydd — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

81. Mae'r rhannau o gymuned Sgeti a ddangosir wedi eu graddliwio ar Fap 35—

- (a) wedi eu throsglwyddo i gymuned Y Cocyd;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Y Cocyd.

82. Mae'r rhannau o gymuned Y Cocyd a ddangosir wedi eu graddliwio ar Fap 36—

- (a) wedi eu throsglwyddo i gymuned Waunarlwydd;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Waunarlwydd.

83. Mae'r rhan o gymuned Sgeti a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 37—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Uplands;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Uplands.

Cwmbwrla, Penderi, a Penlle'r-gaer — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

84. Mae'r rhan o gymuned Cwmbwrla a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 38—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Penderi;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Penderi.

85. Mae'r rhan o ward Dwyrain Penlle'r-gaer o gymuned Penlle'r-gaer a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 39—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Penderi;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Penderi.

86. Enw cymuned Penlle'r-gaer fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn fydd Penlle'r-gaer yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cymuned Penlle'r-gaer — newidiadau i drefniadau etholiadol

87. Yng nghymuned Penlle'r-gaer, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

- (a) ward Dwyrain Penlle'r-gaer yw 6;

- (b) ward Gorllewin Penlle'r-gaer yw 3.

Tregŵyr, Llanrhidian Uchaf, ac Y Crwys — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

88. Mae'r rhan o ward Pen-clawdd o gymuned Llanrhidian Uchaf a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 40—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Y Crwys;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Fairwood.

89. Mae'r rhan o ward Gorllewin Tregŵyr o gymuned Tregŵyr a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 41—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Llanrhidian Uchaf;
- (b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Pen-clawdd;
- (c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Pen-clawdd.

90. Mae'r rhan o gymuned Y Crwys a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 42—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Llanrhidian Uchaf;
- (b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Pen-clawdd;
- (c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Pen-clawdd.

91. Enw ward gymunedol Pen-clawdd fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn fydd Pen-clawdd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cymuned Tregŵyr — newidiadau i drefniadau etholiadol

92. Yng nghymuned Tregŵyr, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

- (a) ward Dwyrain Tregŵyr yw 5;
- (b) ward Gorllewin Tregŵyr yw 5.

Cymuned Llanrhidian Uchaf — newidiadau i drefniadau etholiadol

93. Yng nghymuned Llanrhidian Uchaf, nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

- (a) ward Llanmorlais yw 3;
- (b) ward Pen-clawdd yw 6.

Cymuned Y Crwys — newidiadau i drefniadau etholiadol

94. Nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros gymuned Y Crwys yw 8.

Glandŵr, Treforys, a Mynydd-bach — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

95. Mae'r rhan o gymuned Glandŵr a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 43—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Treforys;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Treforys.

96. Mae'r rhan o gymuned Gellifedw a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 44—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Treforys;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Treforys.

97. Mae'r rhan o gymuned Glandŵr a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 45—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Mynydd-bach;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Mynydd-bach.

98. Enw cymuned Mynydd-bach fel y'i newidir gan y Gorchymyn hwn fydd Mynydd-bach yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Y Mwmbwls — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

99. Mae'r rhannau o ward West Cross o gymuned Y Mwmbwls a ddangosir wedi eu graddliwio ar Fap 46—

- (a) wedi eu throsglwyddo i gymuned Y Mwmbwls;
- (b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Newton;
- (c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Y Mwmbwls.

100. Mae'r rhan o ward Newton o gymuned Y Mwmbwls a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 47—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Y Mwmbwls;
- (b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol Ystumllwynarth;
- (c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Y Mwmbwls.

101. Mae'r rhan o ward Mayals o gymuned Y Mwmbwls a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 48—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Y Mwmbwls;
- (b) yn ffurfio rhan o ward gymunedol West Cross;
- (c) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Y Mwmbwls.

Townhill ac Uplands — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

102. Mae'r rhan o gymuned Uplands a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 49—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Townhill;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Townhill.

103. Mae'r rhan o gymuned Sgeti a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 50—

- (a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Uplands;
- (b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Uplands.

Treuliau cychwynnol etc. cynghorau cymuned newydd

104.—(1) Yn yr erthygl hon—

ystyr “yr awdurdod bilio arfaethedig” (“*the prospective billing authority*”) yw Cyngor Sir Abertawe;

ystyr “Deddf 1992” (“*the 1992 Act*”) yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(9);

(9) 1992 p. 14. Diwygiwyd adrannau 32 a 35, o ran Cymru, gan baragraffau 4 a 6 yn y drefn honno o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19). Diwygiwyd adran 32 ymhellach gan baragraff 10 o Atodlen 7 i Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20) ac O.S. 2013/216 (Cy. 28), ceir diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol at ddibenion y Gorchymyn hwn. Diwygiwyd adran 35 gan baragraff 13 o Atodlen 7 i Ddeddf Lleoliaeth 2011

ystyr “y flwyddyn ariannol berthnasol” (“*the relevant financial year*”) yw’r flwyddyn ariannol sy’n dechrau 1 Ebrill 2027.

(2) Ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol, mae adran 32 o Ddeddf 1992 (cyfrifo gofynion cyllideb gan awdurdodau bilio) yn gymwys i’r cynghorau cymuned newydd a’r awdurdod bilio arfaethedig ond fel pe bai—

(a) wrth wneud cyfrifiad o dan adran 32(2)(a) o Ddeddf 1992—

(i) y swm a hysbysir o dan baragraff (6) o’r erthygl hon yn eitem a grybwyllir yn adran 35(1) o Ddeddf 1992 (eitemau arbennig) sy’n ymwneud â’r gymuned newydd, a

(ii) ardal yr awdurdod bilio arfaethedig yn cynnwys y gymuned newydd;

(b) is-adran (6) wedi ei hepgor.

(3) Ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol, mae adran 41 o Ddeddf 1992 (dyroddi praeseptau gan awdurdodau praeseptio lleol) yn gymwys i’r cynghorau cymuned newydd a’r awdurdod bilio arfaethedig ond fel pe bai’n ofynnol i’r awdurdod bilio arfaethedig, wrth wneud cyfrifiadau o dan adran 32 o Ddeddf 1992 (yn wreiddiol neu drwy amnewid) yn ei amcangyfrif o dan adran 32(2)(a), ystyried swm sy’n hafal i’r hyn a hysbysir iddo o dan baragraff (6) o’r erthygl hon.

(4) Ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol, mae adrannau 52X(1) (cyfrifiadau i fod yn net o braeseptau) a 52Y(2) (gwybodaeth at ddibenion Pennod 4A) o Ddeddf 1992 yn gymwys i’r cynghorau cymuned newydd a’r awdurdod bilio arfaethedig ond fel pe bai cyfanswm cyfanredol y praeseptau a ragwelir gan yr awdurdod bilio arfaethedig o dan reoliadau a wnaed o dan adran 41 o Ddeddf 1992 yn cynnwys y symiau a hysbysir i’r cynghorau cymuned newydd o dan baragraff (6) o’r erthygl hon.

(5) Mewn perthynas â’r flwyddyn ariannol berthnasol, mae adran 50 o Ddeddf 1992 (cyfrifo gofyniad cyllideb gan awdurdodau praeseptio lleol) yn gymwys i’r cynghorau cymuned newydd a’r awdurdod bilio arfaethedig fel pe bai’n ofynnol i bob un o’r cynghorau cymuned newydd sicrhau nad yw’r swm a gyfrifwyd fel ei ofyniad cyllideb ar gyfer y flwyddyn honno yn fwy na’r swm a hysbysir i’r cyngor cymuned newydd hwnnw o dan baragraff (6) o’r erthygl hon.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru roi gwybod am y swm priodol sydd i’w hysbysu i bob un o’r cynghorau cymuned newydd o dan y paragraff hwn yn ysgrifenedig i’r awdurdod bilio arfaethedig ac i bob un o’r cynghorau cymuned newydd.

(7) Ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol, mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Praeseptau) (Cymru) 1995(10) yn gymwys i’r cynghorau cymuned newydd a’r awdurdod bilio arfaethedig fel pe bai—

(a) rheoliad 5 (gwybodaeth am amserlenni talu) wedi ei hepgor;

(b) ym mharagraff 8 o’r Atodlen (rheolau i benderfynu’r cyfnodau amser ar gyfer rhandaliadau)—

(i) yn is-baragraffau (1), (2) a (3), y geiriau ar ôl y cyfeiriad cyntaf at “that financial year” wedi eu hepgor;

(ii) yn is-baragraff (1)(a), y cyfeiriad at “April” yn gyfeiriad at “May”.

a pharagraff 6 o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, ceir diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol at ddibenion y Gorchymyn hwn. Diwygiwyd adran 41 gan baragraff 18 o Atodlen 7 i Ddeddf Lleoliaeth 2011 ac adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1). Diwygiwyd adran 50 gan Ran 1 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26). Mewnosodwyd adrannau 52X a 52Y gan Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 (p. 27).

(10) O.S. 1995/2562, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Gorchymyn hwn.

Cynghorau cymuned newydd

105. Rhaid i swyddog priodol Cyngor Sir Abertawe gynnull cyfarfod cyntaf pob un o'r cynghorau cymuned newydd a sefydlir gan erthyglau 31, 48 ac 60.

Cynghorau cymuned newydd — olynwyr gweddilliol

106. At ddibenion unrhyw ddarpariaeth o Reoliadau 1976 sy'n cyfeirio at olynnydd gweddilliol awdurdod a ddidymwyd—

- (a) ar gyfer cynghorau cymuned Llangynydd, Llanmadog a Cheriton, a Llanrhidian Isaf, mae cyngor cymuned newydd cymuned newydd Gogledd Gŵyr wedi ei bennu yn olynnydd gweddilliol;
- (b) ar gyfer cynghorau cymuned Port Eynon, Pen-rhys, Rhosili, a Reynoldston, mae cyngor cymuned newydd cymuned newydd De Gŵyr wedi ei bennu yn olynnydd gweddilliol;
- (c) ar gyfer cynghorau cymuned Llanilltud Gŵyr, a Pennard, mae cyngor cymuned newydd cymuned newydd Pennard wedi ei bennu yn olynnydd gweddilliol.

Jayne Bryant

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
19 Mawrth 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhidi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.



W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 95

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The County of Swansea (Communities) Order 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order implements the recommendations of the Democracy and Boundary Commission Cymru (“the Commission”), which reported in November 2024 on its review of the community electoral arrangements in the County of Swansea. The Commission’s report recommended changes to the boundaries of communities in the County of Swansea and consequential changes to electoral arrangements. This Order implements the Commission’s recommendations without modification. This Order also makes supplemental provision as considered necessary or expedient by the Welsh Ministers in relation to some community names.

The effect of this Order is to make changes to a number of communities and consequential changes to electoral arrangements. This Order abolishes a number of communities and dissolves their community councils, creates new communities and new community councils, and makes administrative provision for the operation of, and setting of precepts relating to, those new community councils.

The Local Government Area Changes Regulations 1976 referred to in article 2 of this Order contain incidental, consequential, transitional and supplementary provisions about the effect and implementation of orders such as this.

The Welsh Ministers’ Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order.

Prints of the maps labelled “1” to “50” to which this Order relates are deposited in the office of the Welsh Government at Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ (Elections Division) and with Swansea County Council. Prints deposited with the Swansea County Council are open to inspection by anyone affected by the provisions of this Order.

2026 No. 95

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The County of Swansea (Communities) Order 2026

Made

19 March 2026

Coming into force in accordance with article 1(2) and (3)

The Democracy and Boundary Commission Cymru⁽¹⁾ (“the Commission”) has, under section 36(5)(a) of the Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013⁽²⁾ (“the 2013 Act”), submitted to the Welsh Ministers a report dated November 2024 containing its recommendations for change and the details of a review of the community arrangements within the County of Swansea.

The Welsh Ministers have decided to give effect to the Commission’s recommendations without modification. The Welsh Ministers also make supplemental provision as considered necessary or expedient.

